# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

## Ymchwiliad y Pwyllgor i strwythurau rheoli gwleidyddol llywodraeth leol

### Y Cefndir

1. Gwnaed newidiadau sylweddol i drefniadau rheoli gwleidyddol awdurdodau lleol yn sgil Deddf Llywodraeth Leol 2000 gyda'r bwriad o roi arweiniad clir i gynghorau a'u gwneud yn atebol i'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu, ac yn agored ac effeithlon wrth wneud penderfyniadau.  Yn benodol, roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau wneud i ffwrdd â'r hen system bwyllgorau a rhoi system newydd yn ei lle:

- lle mae tîm gweithredol bach yn cael ei benodi i roi arweiniad a chymryd penderfyniadau; a
- lle mae pwyllgorau arolygu a chraffu yn adolygu perfformiad y tîm gweithredol ac yn ceisio'i wella a'i ddatblygu'n barhaus.

2. Yn ei gyfarfod diwethaf, cytunodd y Pwyllgor i adolygu'r ffordd y gweithredir y trefniadau newydd hyn yng Nghymru.  Gofynnir i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau ar y cylch gorchwyl drafft a'r amserlen fras ar gyfer yr adolygiad a'u cymeradwyo.

### Cylch gorchwyl

3. Dyma'r cylch gorchwyl arfaethedig:

> *Ystyried y ffordd y gweithredir y strwythurau rheoli gwleidyddol newydd yng Nghymru a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, eu llwyddiant wrth sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd fwy agored, effeithlon ac atebol a gwneud argymhellion i annog datblygiad arferion da.*

### Tystiolaeth ysgrifenedig

4. Toc wedi i'r Pwyllgor gymeradwyo ei gylch gorchwyl, gwahoddir pobl i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.  Awgrymwyd y dylid pennu dyddiad ar ddechrau mis Hydref fel y dyddiad cau ar gyfer anfon ymatebion. Byddai hyn yn rhoi tua 12 wythnos i bobl gyflwyno tystiolaeth.

5. Awgrymwyd y dylid gofyn i ymatebwyr sicrhau bod yr hyn a gyflwynant yn seiliedig ar dystiolaeth ac enghreifftiau o arferion presennol yn y meysydd canlynol:

- sut mae cyflwyno llywodraeth weithredol wedi effeithio ar effeithlonrwydd a natur agored y ffordd y gwneir penderfyniadau mewn llywodraeth leol;
- sut mae pwyllgorau arolygu a chraffu wedi dwyn y weithrediaeth i gyfrif ac wedi cyfrannu at y broses o ddatblygu polisïau; a
- sut mae rôl cynghorwyr 'meinciau cefn' wedi newid a datblygu.

6. Bydd gwahoddiadau i gyflwyno tystiolaeth yn cael eu hanfon at y cyrff a restrir yn Atodiad A.  Bydd y cyfryngau arbenigol a'r cyfryngau cyffredinol hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymchwiliad.

**Tystiolaeth lafar**
7. Yng ngoleuni'r cyflwyniadau ysgrifenedig a dderbyniwyd, mae'r Pwyllgor yn debygol o gymryd rhagor o dystiolaeth lafar cyn diwedd y flwyddyn.  Er mwyn manteisio'n llawn ar y cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer tymor yr hydref, awgrymwyd gwahodd rhai cyrff allweddol i gyfarfodydd cyntaf y pwyllgor ar ôl toriad yr haf (h.y. cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau ysgrifenedig). Byddai hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor gasglu'r rhan fwyaf o'i dystiolaeth cyn diwedd y flwyddyn, tra hefyd yn rhoi 12 wythnos i bobl ymateb.

**Ymweliadau a chasglu rhagor o dystiolaeth**
8. Er mwyn llywio ymchwiliad y Pwyllgor ymhellach, efallai y bydd Aelodau am gynnal ymweliadau i arsylwi ar bwyllgorau craffu awdurdodau lleol wrth eu gwaith neu gyfarfod â chynghorwyr neu ag eraill yr effeithir arnynt.  Yn dibynnu ar y lleoliad a'r amseru, efallai na fydd yn bosibl i bob Aelod fynd i bob digwyddiad o'r fath.  Gan gofio hyn, a bwrw bod y Pwyllgor yn cytuno, byddaf yn gofyn i'r Ysgrifenyddiaeth lunio rhaglen o ymweliadau er mwyn llywio gwaith yr Aelodau ar yr ymchwiliad hwn.

9. Ar hyn o bryd, mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau wrthi'n llunio gwybodaeth ffeithiol sylfaenol ar arferion pob awdurdod yng Nghymru. Gofynnir i Aelodau nodi a oes unrhyw faterion perthnasol eraill y maent am i'r Gwasanaeth Ymchwil eu briffio arnynt.

**Gorffen**
10. Rwy'n awgrymu bod y Pwyllgor yn ceisio gorffen yr adroddiad a'r argymhellion a'u cyhoeddi ddechrau 2004.

**Camau i'w cymryd gan y pwyllgor**
11. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar y broses, yr amserlen a'r cylch gorchwyl drafft a amlinellwyd yn y papur hwn.

**Ann Jones AC**
Cadeirydd

**Atodiad A**

## Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

## Adolygiad polisi ar weithredu'r strwythurau rheoli gwleidyddol newydd

## Y sawl yr awgrymir ymgynghori â hwy

Aelodau Seneddol Cymru gyfan
Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
Y Comisiwn Archwilio
Prif Weithredwyr ac Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru
Canolfannau Cyngor ar Bopeth Cymru
Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, Pwyllgor Dethol Ty'r Cyffredin
Prifysgol De Montfort
Anabledd Cymru
Awdurdodau Tân Cymru
Fforwm i'r Dyfodol
Yr Asiantaeth Gwella a Datblygu
Sefydliad Astudiaethau Llywodraeth Leol Prifysgol Birmingham
Fforwm LGB Cymru
Penaethiaid Gwasanaethau Cyfreithiol Awdurdodau Lleol
Byrddau Iechyd Lleol
Y Gymdeithas Llywodraeth Leol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yng Nghymru
Y Gymdeithas Cynghorwyr Genedlaethol
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog
Cynghorau Partneriaeth
Awdurdodau Heddlu
Pleidiau Gwleidyddol
Cymdeithas Clerciaid Cynghorau Lleol
SOLACE
Syniad
Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru
UNSAIN Cymru
Uned Gyfansoddiadol Coleg y Brifysgol, Llundain
Ysgol Fusnes Prifysgol Morgannwg
Ysgol Rheolaeth a Busnes Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Ysgol Fusnes Prifysgol Cymru, Caerdydd
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
TUC Cymru
Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru
Ysgol Fusnes Prifysgol Warwick
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru